

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD 07/01/2019 YNG
NGHANOLFAN YR HENOED AM 7pm / MINUTES OF MEETING HELD ON
07/01/2019 AT THE PENSIONERS' HALL AT 7pm.**

<p>PRESENNOL: Cadeirydd Mr R G Parry, Is-gadeirydd Mrs E Jones, Mrs C Parry, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs A Williams a Mr G Williams. Hefyd yn bresennol Mr Rhys Davies a Ms Sarinah Farooq ar ran Cadnant Planning.,</p>	<p>PRESENT: Chairman Mr R G Parry, Vice-chairman Mrs E Jones, Mrs C Parry, Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs A Williams and Mr G Williams. Also present Mr Rhys Davies and Ms Sarinah Farooq on behalf of Cadnant Planning.,</p>
<p>1. Croeso ac ymddiheuriadau.</p>	<p>1. Welcome and apologies</p>
<p>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Mrs Nia Dooley yn absennol am ei bod ar gyfnod mamolaeth.</p>	<p>The Chairman welcomed all to the meeting. Mrs Nia Dooley absent due to being on maternity leave.</p>
<p>2. Datganiadau Diddordeb.</p>	<p>2. Declarations of Interest.</p>
<p>Dim.</p>	<p>None.</p>
<p>3. Cadarnhau cofnodion 07/11/2018</p>	<p>3. Ratify minutes 07/11/2018</p>
<p>Derbyniwyd a chadarnhawyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7/11/2018. Mrs E Jones yn cynnig a Mrs C Parry yn eilio.</p>	<p>The minutes of the meeting held on 7/11/2018 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs E Jones and seconded by Mrs C Parry.</p>
<p>4. Materion yn codi:</p>	<p>4. Matters arising:</p>
<p>(a) Ymgynghoriad cyn cyflwyno cais - Llain Delyn. Yn dilyn cyflwyniad a sesiwn holi ag ateb gan Cadnant Planning penderfynwyd anfon y sylwadau canlynol at adran gynllunio'r Cyngor Sir gyda chopi i'w anfon at Cadnant Planning: Mynediad i'r safle trwy stad Llain Delyn. Nid yw'r ffordd ddigon llydan ar gyfer o leiaf 20 o geir ychwanegol i dramwyo drosti. Pe byddai ceir wedi'u parcio ar ochr y ffordd, ni fyddai modd i gar arall fynd heibio iddo.: Uchder y tai 2 lawr. Mae hyn allan o gymeriad a stad bresennol Llain Delyn a'r tai cyfagos sydd i gyd yn dai un llawr: Yr ardal werdd heb adeilad arno. Pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw'r llecyn hwn? Gall hwn fod yn ardal bosib ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y byddai'n denu pobl ifanc i ymgynnull yno.</p>	<p>(a) Pre-application enquiry – Llain Delyn. Following a presentation and question and answer session by Cadnant Planning it was decided to send the following comments to the planning department of the County Council with a copy to be sent to Cadnant Planning: Entry to the site through Llain Delyn Estate. The road is not wide enough to allow at least 20 extra cars to travel along it. If there were cars parked on the side of the road it would not be possible for another car to pass it. Height of the 2 floor houses. This is out of character with the present Llain Delyn estate and the neighbouring properties which are all single floor houses. The green area. Who would be responsible for maintaining this area? This could be a possible area for anti-social behaviour as it would attract young people to congregate there.</p>

<p>Nid oes angen mwy o le i blant chwarae gan fod eisoes gae chwarae plant yn agos i Llain Delyn ynghyd â chae pêl droed.</p> <p>Byddai'r ardal werdd yn amharu ar breifatrwydd y tai sydd yn cefnu ar yr ardal werdd.</p> <p>Addysg. Gallai stad o'r fath gael effaith ieithyddol ar ethos yr ysgol gynradd leol.</p> <p>Iechyd. Dylid ystyried gallu'r feddygfa i ymdopi â'r galw ychwanegol a ddaw yn sgil y datblygiad.</p> <p>Cyfnod adeiladu. Ni ddylid caniatáu mynediad i'r safle i loriau ond rhwng 9.30am a 3.00pm er mwyn sicrhau diogelwch plant yn cerdded i ac o'r ysgol gynradd leol. Dylid hefyd sicrhau mae enw Cymraeg yn unig a roir ar y stad newydd.</p> <p>Byngalos un ystafell wely – nid yw 1 lle parcio yn ddigon, dylid cael 2 lle parcio.</p> <p>Angen. A oes gwir angen pentrefol am dai ychwanegol?</p>	<p>There is no need for more playing spaces for children as there is already a playing field close to Llain Delyn together with a football field.</p> <p>The green area would impair on the privacy of the houses backing onto the green area.</p> <p>Education. An estate as proposed could have a linguistic effect on the ethos of the local primary school.</p> <p>Health. Consideration should be given as to whether the local surgery has capacity to deal with the extra demand that would come in the wake of the development.</p> <p>Building phase. Lorries should only be permitted to enter and exit the site between 9.30am and 3.00pm in order to ensure the safety of the children who walk to the local primary school. It should also be ensured that only a Welsh name be given to the estate.</p> <p>One bedroom bungalows. Parking space for one car is inadequate, there should be two parking spaces.</p> <p>Need. Is there a real local need for further housing in the village?</p>
<p>(b) Prydles Cae Dafarn Groes. Cadarnhaodd y Clerc bod y brydles wedi'i harwyddo a'r rhent o £200 wedi'i dalu.</p>	<p>(b) Lease Dafarn Groes field. The Clerk confirmed that the lease had been signed and the rent of £200 paid.</p>
<p>(c) Cyfarfod Cynllunio Lle. Medrwn Môn wedi cadarnhau y byddant yn bresennol i roi cyflwyniad yng nghyfarfod mis Chwefror y Cyngor Cymuned.</p>	<p>(c) Place Shaping Meeting. Confirmation from Medrwn Môn that they will give a presentation at the Community Council's February meeting.</p>
<p>(d) Llwybr cyhoeddus Gweithdy. Dim ymateb o'r Cyngor Sir. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor i ofyn am ymateb.</p>	<p>(d) Gweithdy Public footpath. No reply from the County Council. The Clerk was requested to write to the County Council asking for a response.</p>
<p>(e) Cais cynllunio 48c207c – tir ger Frondeg.. Eboost oddi wrth Gwen Jones, Uwch Swyddog Cynllunio yn cadarnhau os yw'r datblygiad yn cael ei ganiatau, bydd yna nodyn i'r ymgeisydd yn hybu iddynt roi enw Cymraeg ar y stad. Gallwn hefyd gysylltu a'r adran briffyrdd er mwyn iddynt gymryd hyn ystyriaeth os bydd y lon yn cael ei mabwisadu.</p>	<p>(e) Planning application 48c207c – land adjacent to Frondeg. Email from Gwen Jones Senior Planning Officer confirming that should the development be permitted there will be a note sent to the application stating that the estate should have a Welsh name. We can also contact the highways department in order that they can take this into consideration</p>

Dwr Cymru wedi cael ei ymgynghori a'r Cyngor yn disgwyl ymateb.	if the road is adopted. Welsh Water have been contacted and Council waiting reply.
(f) Calonnau Cymru - Diffribilydd i'r pentref. Cafwyd ar ddeall gan Mrs A E Williams bod Mrs Stephanie Williams eisoes yn codi arian tuag at gael 2 ddiffribilydd i'r pentref. Un yw osod yn y dafarn a'r llall yn y cae pêl droed. Penderfynwyd felly i adael y mater.	(f) Welsh Hearts – Defibrillator for the village. Mrs A E Williams stated that Mrs Stepahnie Williams was already raising money to buy 2 defibrillators for the village. One to be placed in the hotel the other in the football field. It was therefore decided not to pursue the matter.
(g) GDPR. Y Clerc wedi bod ar yr hyfforddiant ond heb ei gael yn ddefnyddiol.	(g) GDPR. The Clerk had attended the training, but had not found it useful at all.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(a) Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ymgynghoriad Praesept Gogledd Cymru 2019/2020. Derbyn er gwybodaeth.	(a) Police and Crime Commissioner. Consultation North Wales Praecept 2019/2020. For information.
(b) Un Llais Cymru	(b) One Voice Wales.
(i) Cabinet Newydd Prif Weinidog y Cynulliad. Derbyn er gwybodaeth.	(i) Assembly First Minister's new Cabinet. For information.
(ii) Gweithredu ar Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) 7 Ionawr 2019. Derbyn er gwybodaeth.	(ii) SUDS Implementation 7 January 2019. For information.
(iii) Adroddiad Diweddaraf o Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliad Betsi Cadwaladr. Derbyn er gwybodaeth.	(iii) Latest Report from Betsi Cadwaladr Stakeholder Group. For information.
(iv) Cylchlythyr Cysylltu Cymunedau yng Nghymru. Derbyn er gwybodaeth.	(iv) Connecting Communities in Wales Newsletter. For information.
(v) Diweddariad Heneiddio'n Dda yng Nghymru – Tachwedd 2018. Derbyn er gwybodaeth.	(v) Ageing Well in Wales Update – November 2018. For information.
(c) Cyngor Sir Ynys Môn.	(c) Anglesey County Council
(i) Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Tachwedd. Derbyn er gwybodaeth.	(i) Executive's forward work programme – November update. For information.
(ii) Fforwm Cyswllt 28/11/2018. Cofnodion a chopi o'r cyflwyniad ar Gynigion Cyllideb 2019/20. Derbyn er gwybodaeth.	(ii) Liaison Forum 28/11/2018. Minutes and copy of presentation on 2019/20 Budget Proposals. For information.
(iii) Rhybudd Penderfyniad Cais Cynllunio: Caniatâd i Rif Cais 48C102C - Cais llawn ar gyfer creu ménage i ddefnydd preifat yn unig ar dir yn Pumlllog. Derbyn er gwybodaeth.	(iii) Notice of Planning Decision: Application No. 48C102C granted – Full application for the construction of a ménage for private use only on land at Pumlllog. For information.
(d) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn.	(d) Joint Planning Policy Unit – Anglesey and Gwynedd.

(i) Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy; Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy; Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid - Ymgynghoriad Pellach. Derbyn er gwybodaeth.	(i) Public consultation Supplementary Planning Guidance: Affordable Housing; Maintaining and Creating Distinctive and Sustainable Communities; Tourism Facilities and Accommodation – Further Consultation. For information.
(e) NALC.	(e) NALC
(i) Cyfarwyddyd Cyflogaeth - 2019/2020 Dyfarniad Cyflogau Cenedlaethol. Derbyn er gwybodaeth.	(i) Employment Briefing 2019/2020 National Salary Award. For information.
(f) Swyddfa Archwilio Cymru	(f) Wales Audit Office.
(i) Dau Ddatganiad i'r Wasg. Derbyn er gwybodaeth.	(i) Two Press Releases. For information.
(g) Llywodraeth Cymru.	(g) Welsh Government
(i) Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref – Rhagfyr 2018. Derbyn er gwybodaeth.	(i) Community and Town Council Update - December 2018. For information.
(h) Medrwn Môn.	(h) Medrwn Môn
(i) Rhybudd a Gwahoddiad Swyddogol i Gyfarfod Blynyddol Medrwn Môn 24/01/2019 yn Neuadd Goffa, Llanfairpwll. Neb yn rhydd i dderbyn y gwahoddiad.	(i) Official Notice and Invitation to Medrwn Mon's Annual Meeting 24/10/2019 at The Memorial Hall, Llanfair P.G. No one able to accept the invitation.
(i) Cais am gyfraniad oddi wrth Dawns i Bawb a Theatr Bara Caws. Trafodwyd a phenderfynwyd peidio anfon cyfraniad.	(i) Request for donation from Dawns i Bawb and Theatr Bara Caws. Discussed and decided not to make a donation.
(j) Rhun ap Iorwerth AC. Cylchlythyr Tachwedd 2018. Derbyn er gwybodaeth.	(j) Rhun ap Iorwerth AM. November 2018 Newsletter. For information.
6. Materion ariannol	6. Financial matters
(a) Anfonebau fel a ganlyn: Un Llais Cymru £40.00 Hyfforddiant Modiwl 15 i'r Clerc; Swyddfa Archwilio Cymru £363.15 Archwiliad Allanol 2017/18; Npower £22.95 Cyflenwad trydan i'r cloc 1/9/18-1/12/18 (hwn wedi'i dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol). Penderfynwyd i'r Clerc dalu'r anfonebau. Dywedodd y Clerc ei bod wedi canfod wrth adolygu'r gyllideb bod dwy sic yn daladwy i HMRC heb eu cyflwyno i'r banc ar gyfer eu talu, a gofynnodd am ganiatâd i ganslo'r ddwy sic yn y banc ac i anfon un sic arall am £250.00 ac yn daladwy i HMRC yn lle'r ddwy a ganslwyd. Rhoddwyd caniatâd iddi wneud hynny.	(a) Invoices as follows: One Voice Wales £40.00 Module 15 training for Clerk; Wales Audit Office £363.15 External Auditing 2017/18; Npower £22.95 Electricity supply to clock 1/9/18 – 1/12/18 (this has been paid by Direct Debit). It was decided that the Clerk pay the invoices. The Clerk reported that on reviewing the budget she had found that 2 cheques made payable to HMRC had not been presented to the bank for payment, and she asked for permission to issue a further cheque for £250.00 made payable to HMRC to cover the two cheques to be cancelled. Permission was granted.
(b) Praesept terfynol 2018/19 - £2166.67 wedi'i dderbyn. Er	(b) Final praecept 2018/19 £2166.67 received. For information.

gwybodaeth.	
(c) Adolygu cyllideb/sefyllfa ariannol y Cyngor a Phennu praesept ar gyfer 2019/2020. Trafodwyd a derbyniwyd adroddiadau'r Clerc sy'n dangos bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rhoddwyd copi o daflen waith pennu praesept i'r Cynghorwyr, ac yn dilyn trafod yr anghenion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, penderfynwyd pennu praesept o £8500.00 ar gyfer 2019/20.	(c) Review Council's budget/financial position and Set praecept for 2019/2020. The Clerk's reports, which confirmed that there was sufficient income and money in reserve to cover the costs to the end of the financial year, were discussed and accepted. A copy of the work sheet for setting the praecept was given to the Councillors, and following discussing the needs for the next financial year, it was decided to set the praecept for 2019/20 at £8500.00.
(d) Swm priodol dan Adran 137(4)(A) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 ar gyfer 2019-20 yw £8.12 am bob etholwr h.y. $700 \times £8.12 = £568.40$. Derbyner gwybodaeth.	(d) Appropriate Sum under Section 137(4)(A) of the Local Government Act 1972. Section 137 Expenditure Limit for 2019-2020 is £8.12 per elector i.e. $700 \times £8.12 = £568.40$ For information.
7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd. Dim.	7. Any other matter at the Chairman's discretion. None.
CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lon 4ydd Chwefror 2019 at 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.	NEXT MEETING: The next meeting will be held on 4 th February 2019 at the Pensioners' Hall at 7pm.
Daeth y cyfarfod i ben am 9pm.	The meeting concluded at 9pm.